***Cwestiynau Cyffredin – Canolfan Breswyl i Fenywod (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)***

**Beth yw'r Ganolfan Breswyl i Fenywod?**

Canolfan 12 gwely yw'r Ganolfan Breswyl i Fenywod, a fydd yn darparu cymorth arbenigol i fenywod lleol sydd wedi cyflawni troseddau lefel isel i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol eu hymddygiad troseddol.

**Pa fath o fenywod fydd yn aros yn y Ganolfan?**

Bydd menywod o ardal Abertawe sydd wedi cyflawni troseddau lefel isel yn cael eu hystyried. Byddant yn cael eu hasesu i sicrhau nad ydynt yn peri risg o niwed i'r cyhoedd ac y byddant yn elwa o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Bydd y menywod wedi cytuno i gymryd rhan yn y cyfle hwn, a bydd y llys yn penderfynu mai dyma'r opsiwn gorau iddynt.

**Beth mae'r Ganolfan yn ei gynnwys?**

Bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn darparu cartref i 12 o fenywod a fydd yn aros am hyd at 12 wythnos ar y tro. Ar ben hynny, bydd yn darparu gwasanaethau dydd i fenywod lleol eraill yn y gymuned. Bydd darpariaeth y ganolfan ddydd ar gael drwy apwyntiad, felly nifer cyfyngedig o fenywod fydd yn bresennol ar unrhyw adeg benodol.

**Pwy fydd yn rhedeg y Ganolfan Breswyl i Fenywod?**

Bydd staff y Gwasanaeth Prawf sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â phrofiad o weithio gyda menywod sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yn y Ganolfan Breswyl i Fenywod 24/7.

Hoffai'r Ganolfan Breswyl i Fenywod feithrin a chynnal perthynas gadarnhaol gyda'r gymuned leol. Rydym yn disgwyl i hyn barhau yn ystod y gwaith o ddatblygu'r safle a phan fydd y Ganolfan yn agor.

Diweddarwyd Chwefror 2023

Mae tîm y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol yn y maes prawf, menywod sydd â phrofiad o'r system gyfiawnder, partneriaid allweddol lleol a thîm Dylunio i Atal Troseddu lleol Heddlu De Cymru, i ddatblygu'r Ganolfan.

**Beth fydd y menywod yn ei wneud yn y Ganolfan?**

Bydd gan y menywod sy'n aros yn y Ganolfan amserlen brysur. Byddant yn cymryd rhan mewn ymyriadau yn ôl yr angen i'w helpu i fynd i'r afael ag achosion eu hymddygiad troseddol, er enghraifft therapi iechyd meddwl un-i-un, cwnsela i fynd i'r afael â'u trawma o gamdriniaeth flaenorol a chymorth i oresgyn dibyniaeth.

Bydd y menywod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol sy'n digwydd yn y Ganolfan, fel dosbarthiadau ymarfer corff, garddio, coginio ac ymyriadau lles eraill, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion a'u paratoi ar gyfer gadael y Ganolfan a setlo'n ôl i fywyd yn y gymuned leol.

Bydd y gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth tymor hwy i fenywod i'w helpu i ddod o hyd i swydd a chynnal perthynas deuluol wrth iddynt symud o'r Ganolfan yn ôl i fywyd yn eu cymunedau.

**Pa gyfyngiadau fydd yna ar y menywod sy'n aros yn y Ganolfan?**

Bydd menywod yn cytuno i gytundeb ymddygiad pan fyddant yn cyrraedd y Ganolfan. Bydd hyn yn cynnwys rheolau am eu hymddygiad ar y safle ac oddi arno. Bydd cyrffyw llym yn y nos, ac ni fydd unrhyw gyffuriau ac alcohol ar y safle. Bydd camau'n cael eu cymryd os byddant yn methu â chydymffurfio ac efallai y byddant yn colli eu lle ac yn gorfod dychwelyd i'r llys.

**A fydd aelodau o deuluoedd y menywod yn gallu ymweld? Os felly, sut caiff hyn ei reoli ac ym mhle bydd hyn yn digwydd?**

Byddant, ond bydd pob ymweliad yn cael ei drefnu ymlaen llaw a bydd angen i'r Ganolfan gymeradwyo'r ymwelwyr. Bydd y Ganolfan yn darparu ystafelloedd teulu ar gyfer ymweliadau yn ogystal â chyfleusterau fideo gynadledda, a bydd gan fenywod ffonau i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd.

**A fydd plant yn gallu aros gyda'u mamau yn y Ganolfan?**

Bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn cefnogi menywod i gadw mewn cysylltiad â phlant, eu teuluoedd a chymunedau lleol drwy annog cyswllt ac ymweliadau fel y bo'n briodol. Yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl agor, byddwn yn ystyried sut y gallem ddarparu lle i blant gyda'u mamau. Byddwn yn gwneud hyn fesul achos ac yn ystyried anghenion y plentyn a'r fam.

**Ai math o garchar yw'r Ganolfan Breswyl i Fenywod?**

Na, nid carchar yw'r Ganolfan Breswyl i Fenywod. Mae'n ganolfan i fenywod gyda darpariaeth breswyl sy'n darparu cefnogaeth gyfannol ac effeithiol i fenywod agored i niwed sydd eisoes yn byw yn ardal Abertawe.

Mae sawl enghraifft o ganolfannau menywod mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru a Lloegr. Mae gan rai canolfannau menywod hefyd lety ar y safle neu gerllaw er mwyn darparu cymorth dwysach. Bydd ein model yn canolbwyntio ar fenywod sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder ac mae'n seiliedig ar yr arferion gorau presennol.

**Sut bydd diogelwch yn cael ei reoli?**

Rydym wedi ystyried cymdogion y Ganolfan Breswyl i Fenywod ac rydym am iddynt fod yn hyderus y bydd y Ganolfan yn cael ei rheoli'n effeithiol. Mae gan staff y Gwasanaeth Prawf a fydd yn gweithio yn y Ganolfan 24/7 brofiad sylweddol o weithio gyda menywod sydd wedi cyflawni troseddau. Yn ogystal, bydd polisi llym o beidio â chaniatáu unrhyw alcohol na chyffuriau ar y safle ac ni fyddwn yn goddef unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd nifer o fesurau diogelwch gan gynnwys teledu cylch cyfyng y tu allan i'r adeilad, mynedfeydd wedi'u goleuo'n briodol (yn unol â rheoliadau amgylcheddol) a

systemau larwm. Bydd staff yn gweithio yn yr uned breswyl 24/7, bydd gan y Ganolfan gyrffyw yn ystod y nos ac efallai y bydd gan rai unigolion gyrffyw unigol fel rhan o'u gorchymyn llys. Dim ond ar adegau penodol y bydd ymwelwyr y cytunwyd arnynt ymlaen llaw yn cael ymweld.

Bydd y Ganolfan yn gweithio gyda chymdogion a busnesau lleol i sicrhau bod y Ganolfan yn delio ag unrhyw bryderon yn brydlon ac yn rhoi gwybod i'r timau plismona cymdogaeth lleol pan fo angen.

Mae'r cynlluniau ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod wedi cynnwys ymgynghori cynnar gyda heddlu'r gymdogaeth leol a bydd y Ganolfan yn parhau i weithio'n agos gyda hwy.

**Sut bydd cynnydd mewn traffig yn cael ei reoli?**

Ni ragwelir y bydd cynnydd yn y traffig o'i gymharu â defnydd blaenorol y safle. Ni fydd gan drigolion y safle gerbydau, a rhan o'n hymrwymiad i'r amgylchedd fydd bod trigolion, staff a defnyddwyr y Ganolfan yn cael mynediad i'r safle ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar feic neu ar droed, lle bynnag y bo modd.

**Beth yw pwrpas cael Canolfan Breswyl i Fenywod yn y gymuned leol?**

Bydd menywod sy'n mynychu'r Ganolfan yn dod o ardal Abertawe. Bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn galluogi menywod i aros yn nes at y rheini sy'n eu cefnogi, mewn amgylchedd diogel, er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar y dasg o wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau a'u cefnogi i fyw bywydau di-drosedd. Mae tystiolaeth yn dangos bod cynnal perthnasoedd â'r teulu a'r gymuned yn ffactor pwysig o ran atal aildroseddu.

**Beth yw manteision cael Canolfan Breswyl i Fenywod yn y gymuned?**

Mae nifer o fanteision ynghlwm wrth gael Canolfan Breswyl i Fenywod yn y lleoliad penodol hwn, gan gynnwys:

- **Lleihau troseddu** – bydd y Ganolfan yn helpu i atal rhagor o droseddu drwy roi sylw i anghenion menywod sy'n gysylltiedig â'u troseddu, a fydd yn ei dro yn atal troseddu pellach ac yn arwain at gymunedau mwy diogel.
- **Lleihau'r effaith ar wasanaethau lleol** – bydd y Ganolfan yn hyrwyddo cydweithio rhwng gwasanaethau lleol, gan ddod â darparwyr cyfiawnder, iechyd a thai, a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac elusennau lleol at ei gilydd. Mae tystiolaeth yn dangos bod cymorth gan ganolfannau menywod yn gallu lleihau'r galw ar wasanaethau fel iechyd a thai drwy alluogi mwy o bobl sydd wedi goroesi camdriniaeth i gael cymorth a lleihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system ofal.
- **Cadw teuluoedd lleol gyda'i gilydd** – mae cadw menywod yn agos at eu cartref yn eu galluogi i aros yn agos at eu teulu a'u plant. Yn ogystal â chefnogi'r menywod i newid eu bywydau, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu plant, gan leihau'r effaith o gael mam neu rywun annwyl iddynt yn y carchar ymhell o'u cartref.
- **Gwella lles a chanlyniadau bywyd menywod lleol a'u teuluoedd** – drwy wella sgiliau, iechyd (meddyliol a chorfforol) a pherthnasoedd menywod, maent yn fwy tebygol o ddod yn aelodau cynhyrchiol o gymunedau lleol.

**Pam ddewiswyd Abertawe fel lleoliad ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod?**

- Ar gyfer menywod sy'n oedolion, Ardal Heddlu De Cymru sydd â'r nifer uchaf o ddedfrydau i garcharu ar unwaith o 12 mis neu lai yng Nghymru. Cafodd 145 o fenywod ddedfrydau o'r fath yn y flwyddyn a ddaeth i ben diwedd Mehefin 2022, sy'n 67% o'r 217 o fenywod a gafodd eu hanfon i'r carchar am ddedfrydau tymor byr ar draws Cymru yn ystod yr un cyfnod.
- Mae nifer uchel o fenywod sy'n troseddu yn Abertawe. Mae'r menywod a fydd yn mynychu'r Ganolfan eisoes yn byw yn ardal Abertawe ac mae lleoli'r Ganolfan yn Abertawe yn golygu y bydd digon o alw am le yn y Ganolfan.
- Mae gan Abertawe hanes hir o gefnogi pobl agored i niwed yn y gymuned. Bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn ychwanegu at hyn, gan ddarparu mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen i helpu menywod agored i niwed i weddnewid eu bywydau.

**Pam ddewiswyd Trehafod fel y safle i leoli'r Ganolfan Breswyl i Fenywod?**

Mi aeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ati i chwilio'n eang am safle, gan weithio'n agos gyda nifer o bartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Awdurdodau Lleol a mudiadau'r trydydd sector, i ddod o hyd i safle addas ar gyfer y Ganolfan.

Mae'r meini prawf yn cynnwys; fforddiadwyedd, hygyrchedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, mynediad at wasanaethau presennol a bodloni gofynion y Ganolfan o ran maint yr adeilad, argaeledd mannau awyr agored, a phartneriaethau lleol cryf.

Rhoddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyriaeth i safleoedd mewn rhannau eraill o Dde Cymru, ond nid oeddent yn ystyried bod unrhyw un o'r eiddo a oedd ar gael yn addas. Mae Trehafod yn darparu gofod sy'n bodloni'r gofynion uchod.

**Pam nad yw'r menywod hyn yn cael eu hanfon i'r carchar?**

Nid oes angen anfon y menywod a fydd yn mynychu'r Ganolfan Breswyl i Fenywod i'r carchar gan fod y troseddau y maent wedi'u cyflawni a'u perygl i eraill yn golygu eu bod yn addas i gael dedfryd gymunedol.
Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod sy'n cael eu cefnogi gan sefydliadau cyfiawnder a chanolfannau menywod yn y gymuned yn llai tebygol o aildroseddu. Mae dedfryd gymunedol gadarn yn cefnogi'r menywod hyn, gan osgoi effeithiau niweidiol eu hanfon i'r carchar am gyfnodau mor fyr, fel tarfu ar fywyd teuluol, effeithiau negyddol ar blant a dioddef mwy o gyflyrau iechyd meddwl.

Mae'r ffaith nad oes unrhyw garchardai i fenywod yng Nghymru (ac nad oes cynlluniau i adeiladu rhai ar hyn o bryd) yn gwaethygu'r effaith ar fenywod o Gymru . Os byddant yn cael eu dedfrydu i garchar, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt fynd ymhell o'u cartref a'u teuluoedd sy'n cael effaith negyddol ar eu proses adsefydlu.

**Gwnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod dan ddosbarth defnydd C2A, sef yr un dosbarth**

**defnydd a charchar. A yw hyn yn golygu bod bwriad neu risg y gellid troi'r eiddo'n garchar yn ddiweddarach?**

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn deall pryderon pobl leol ynghylch dosbarth defnydd y cais (C2A). Nid oes unrhyw fwriad i symud yr eiddo hwn o fod yn Ganolfan Breswyl i Fenywod, ac os bydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PEDW) yn cymeradwyo'r cais, yna ni fyddai unrhyw wrthwynebiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i PEDW osod amod sy'n cyfyngu defnydd y safle i'r hyn a adlewyrchir yn ein cynigion.

**Pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal gyda'r gymuned leol?**

Pan gyflwynwyd y cais cynllunio cychwynnol, dilynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y canllawiau cynllunio statudol a lleol gofynnol mewn perthynas ag ymgynghori â'r gymuned leol. Yn sgil natur y pryderon yn ystod cam ymgynghori'r cais, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgysylltiad ychwanegol â chynghorwyr lleol a'r gymuned fel ffordd o geisio ateb rhai o'r pryderon hynny. Roedd hyn yn cynnwys anfon llythyr at oddeutu 300 o dai lleol, cynnal sesiwn galw heibio undydd ger Trehafod, parhau i ymgysylltu ac ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd a pharatoi dogfen Cwestiynau Cyffredin, a anfonwyd drwy e-bost at gynghorwyr i'w rhannu â phobl leol, a'u dosbarthu yn y sesiwn galw heibio, a chafodd ei anfon dros e-bost at drigolion lleol sydd wedi dewis derbyn rhagor o wybodaeth, ac mae wedi bod ar gael ar-lein hefyd.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion lleol, cynghorwyr, yr awdurdod lleol a'r heddlu lleol am ddatblygiadau sy'n cynnwys cynnal a chadw'r safle a'r camau nesaf ar gyfer y prosiect. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr a rhanddeiliaid lleol ar bob cam a bydd yn cynnwys cysylltiadau â'r gymuned mewn unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

**Beth yw statws y caniatâd cynllunio ar gyfer safle Trehafod?**

Cyflwynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gais cynllunio ar gyfer datblygu'r safle i Awdurdod Lleol Abertawe ym mis Gorffennaf 2022. Ar 4 Hydref 2022, gwnaeth

pwyllgor cynllunio Abertawe benderfyniad ar ein cais cynllunio. Er gwaethaf argymhelliad y Swyddog Cynllunio i gymeradwyo'r cais, gwrthodwyd y cais gan y pwyllgor cynllunio. Y rhesymau oedd amwynder preswyl, ac ofn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ers hynny, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn ystyried y rhesymau dros wrthod, yn gofyn am gyngor ac yn ystyried pa gamau y dylid eu cymryd nesaf. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym wedi penderfynu apelio yn erbyn penderfyniad y pwyllgor cynllunio drwy Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PEDW).

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag aelod o dîm y Ganolfan Breswyl i Fenywod ar RWCWales@justice.gov.uk**